# ROBERTS, JOHN (1807 - 1876), cerddor



**Enw:** John Roberts
**Dyddiad geni:** 1807
**Dyddiad marw:** 1876
**Rhiant:** Jane Roberts
**Rhiant:** Aaron Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerddor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd 30 Mawrth 1807 yn Henllan, ger Dinbych, mab Aaron a Jane Roberts. Addysgwyd ef yn ysgol y pentref hyd yn 13 oed, a dwy flynedd wedi hynny gan y Parch. Thomas Jones, gweinidog yr Annibynwyr, Dinbych. Dysgwyd nodiant cerddorol iddo gan Thomas Daniel, Henllan, ac astudiodd lyfrau cerddorol ei hunan, a daeth i gynganeddu yn dda. Casglodd a chopïodd nifer mawr o'r hen donau a genid yn ystod diwygiadau crefyddol, ac a gyfansoddwyd gan gerddorion o dan ddylanwadau diwygiadau crefyddol. Rhoddodd rai ohonynt i John Parry, Caer, i'w hargraffu yn *Peroriaeth Hyfryd*, 1837. Yn 1839 dug allan *Caniadau y Cysegr* yn cynnwys 55 o'r hen alawon wedi eu cynganeddu ganddo - y casgliad cyntaf a gafodd y genedl. Yn 1876 ymgymerodd ei ddau fab â chyhoeddi casgliad o alawon eu tad. Bu'r tad farw cyn iddynt orffen y gwaith. Cyhoeddwyd y casgliad dan yr enw *In Memoriam*; cynnwys 11 o donau. Ar ôl llafur oes gyda chaniadaeth y cysegr bu John Roberts farw 4 Ebrill 1876, a chladdwyd ef ym mynwent y Groes, ger Dinbych.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


*Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889–96), x, 703

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

*Y Cerddor*, Awst 1891

R. D. Griffith, *Hanes canu cynulleidfaol Cymru* (Caerdydd 1948)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804728

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu